



## Polisi Amgylcheddol

Sefydlwyd Cymen yn 1987, ac erbyn hyn rydym yn un o'r cwmnïau cyfieithu mwyaf blaengar ac uchel ei barch yng Nghymru. Mae'r swyddfa wedi ei lleoli yn nhref hanesyddol Caernarfon yng Ngogledd Cymru, lle mae ein tîm o gyfieithwyr yn gweithio i ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf i'n cwsmeriaid.

Rydym wedi edrych ar y busnes drwyddo draw er mwyn gweld pa feysydd sydd fwyaf perthnasol i ni o ran ein heffaith ar yr amgylchedd, a byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn mynd ati yn y ffordd orau bosib i ddefnyddio ein hadnoddau'n effeithlon a sicrhau'r effaith leiaf bosib ar yr amgylchedd. Rydym yn bwriadu adolygu ein cynnydd yn erbyn targedau, a chymryd camau lle bo angen i wella'r targedau hynny a chyrraedd ein nodau a'n hamcanion.

Ac ystyried natur ein gwaith, y prif feysydd sy'n berthnasol i ni yn hyn o beth yw ynni, trafndiaeth, gwastraff ac ailgylchu. Rydym yn ymdrechu'n barhaus i wella ein defnydd o adnoddau, drwy leihau ein defnydd ohonynt a thrwy eu hailddefnyddio a'u hailgylchu, ond rydym am fynd ati'n benodol i:

- Edrych yn barhaus ar bob rhan o'r busnes er mwyn gweld beth allwn ni ei wneud i ddefnyddio llai o ynni, er enghraifft, annog y staff i ddiffodd eu cyfrifiaduron a'r sgrin ar ôl gorffen gweithio
- Edrych ar ein defnydd o bapur, a meddwl am ragor o ffyrdd i'w arbed, er enghraifft drwy storio mwy byth o wybodaeth yn ddigidol ar gyfrifiadur
- Rhoi pwyslais eto ar ailgylchu, gan annog staff i wneud hynny – rydym yn awyddus i barhau i ailgylchu cymaint ag y bo modd
- Ymrwymo i atal llygredd
- Sicrhau bod Cymen yn parhau i gefnogi a defnyddio cynnyrch Masnach Deg

Yn ogystal â chydymffurfio â gofynion cyfreithiol a gofynion eraill, rydym yn cadw golwg ar dargedau ac yn monitro ein perfformiad amgylcheddol yn gyson fel cwmni drwy gyfrwng adolygiad blynyddol.



**Aled Jones**

**Cyfarwyddwr**

**Manon Cadwaladr**

**Cyfarwyddwr**